Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 21.06.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# ARIANNU: Cronfa newydd gwerth £5 Miliwn i Hybu Entrepreneuriaeth Ymysg Pobl Ifanc yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi £5miliwn o gyllid dros 3 blynedd i gefnogi 1,200 o bobl ifanc i ddechrau eu busnes eu hunain – Grant Dechrau Busnes newydd i Bobl Ifanc o hyd at £2,000 fesul busnes, yn ogystal â chymorth cynghori busnes am flwyddyn. I ddarllen y datganiad yn llawn, ewch i:

https://llyw.cymru/cymru-y-dragons-den-go-iawn-llywodraeth-cymru-i-gefnogi-1200-o-bobl-ifanc-i-ddechrau-eu-busnes-eu

Mae mwy o wybodaeth am y Gwarant i Bobl Ifanc ar gael ar:

https://cymrungweithio.llyw.cymru/sut-y-gallwn-ni-helpu/gwarant-i-bobl-ifanc

# CYFLE: Taith Baton y Frenhines Birmingham 2022 yng Ngwynedd

Ar 29 a 30 Mehefin 2022, bydd Taith Baton y Frenhines ar gyfer Gemau'r Gymanwlad Birmingham 2022 yn teithio drwy'r lleoliadau canlynol yng Ngwynedd – Bethesda, Beddgelert, Portmeirion, Tywyn and Abergynolwyn. Mae aelodau o'r cyhoedd wedi cael eu hannog i gymryd rhan yn y dathliadau, felly gallai'r torfeydd ychwanegol roi cyfle i fusnesau ar y daith. Mae gwybodaeth am y daith ar gael ar:

https://teamwales.cymru/cy/events/queens-baton-relay/

# TECH: Arddangos Datrysiad SMART – Digwyddiad Loqiva 29 Mehefin 2022

Mae systemau Tref SMART – sy'n darparu gwybodaeth am sut a phryd y mae cwsmeriaid yn ymweld â'r stryd fawr – eisoes ar waith mewn nifer o drefi a phentrefi lleol, gyda mwy ar y ffordd. Cynhelir datrysiad Tref SMART ar-lein ar 29 Mehefin 2022 (12:00pm-1:30pm). Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3QDL0WY

# DIGWYDDIAD: Diwrnod Rhyngwladol Merched mewn Peirianneg 2022

Cynhelir Diwrnod Rhyngwladol Merched mewn Peirianneg eleni ar 23 Mehefin 2022, a bydd yn dathlu'r gwaith anhygoel y mae peirianwyr benywaidd yn ei wneud o amgylch y byd. Os ydych eisiau cymryd rhan, mae mwy o wybodaeth ac adnoddau i'w lawrlwytho ar:

https://www.inwed.org.uk/

## NEWYDDION: Gweledigaeth newydd i sicrhau dyfodol disglair i sector manwerthu Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio gweledigaeth newydd ar gyfer y sector manwerthu, wedi ei ddatblygu mewn partneriaeth â busnesau a gweithwyr, yn anelu at sector manwerthu llwyddiannus, arloesol, cynaliadwy a chadarn sy'n cynnig gwaith teg a sicr sy'n rhoi boddhad. I ddarllen y datganiad yn llawn, ewch i:

https://llyw.cymru/gweledigaeth-newydd-i-sicrhau-dyfodol-disglair-i-sector-manwerthu-cymru

Gellir gweld y ddogfen bolisi ar:

https://llyw.cymru/gweledigaeth-strategol-rennir-ar-gyfer-y-sector-manwerthu-html

## ARIANNU: Beacons – Cyllid Ar Gyfer Ffilmiau Byrion

Beacons yw cronfa ffilmiau byrion flynyddol Ffilm Cymru a RHWYDWAITH BFI Cymru, sy'n cael ei rhedeg mewn partneriaeth â BBC Cymru, ac mae'n darparu cyllid yn ogystal â chymorth creadigol ac ymarferol i helpu gwneuthurwyr ffilmiau i fwrw ymlaen â'u gyrfa. Mae hyd at £15,000 o gyllid ar gael i ymgeiswyr cymwys ar gyfer prosiect ffilm fer, y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 5 Gorffennaf 2022. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://ffilmcymruwales.com/cy/funding-and-training/beacons-cyllid-ar-gyfer-ffilmiau-byrion

## DIGWYDDIAD: Dathlu Lefel Nesaf 23 Mehefin 2022

Bydd y digwyddiad Dathlu Lefel Nesaf, i'w gynnal yn M-SParc Gaerwen ar 23 Mehefin 2022 (o 6:00pm ymlaen), yn dod â rhai o

fusnesau newydd mwyaf cyffrous yng ngogledd Cymru, sydd wedi elwa o fod yn rhan o raglen Cyflymydd Lefel Nesaf M-SParc, i gyflwyno eu syniadau arloesol i fuddsoddwyr a mentoriaid. Bydd hwn yn ddigwyddiad hybrid – mewn person ac ar-lein. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://m-sparc.com/cy/digwyddiad-dathlu-lefel-nesaf/

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru